Canllaw i...

# Ddeall a defnyddio data perfformiad



Data Cymru

Cynhyrchwyd gan: Data **Cymru**
Cyhoeddwyd: Medi 2024

029 2090 9500

ymholiadau@data.cymru

www.data.cymru

Mae’r canllaw hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

# Cynnwys


**1. Ein canllaw ar ddeall a defnyddio data perfformiad** ........ 1

**2. Geirfa** ........ 1

**3. Pam mae data perfformiad yn bwysig?** ........ 1

**4. Beth yw data perfformiad?** ........ 2

4.1 Mathau o ddata perfformiad ........ 2

4.2 Lefelau data perfformiad ........ 6

4.3 Crynodeb – beth yw data perfformiad? ........ 7

**5. Deall data perfformiad** ........ 7

5.1 Ydy'r data yn berthnasol? ........ 7

5.2 Sut mae'r data yn cael ei gyflwyno? ........ 8

5.3 Pa olwg sydd ar berfformiad 'da'? ........ 10

5.4 Sut ydw i'n perfformio? ........ 11

5.4.1 Graddau RAG ........ 11

5.4.2 Perfformiad chwartel ........ 12

5.4.3 Targedau ........ 14

5.4.4 Targedau SMART ........ 15

5.5 Crynodeb: Deall data perfformiad ........ 16

**6. Defnyddio data perfformiad** ........ 16

6.1 Meincnodi ........ 17

6.1.1 Ystyriaethau amserlen ........ 17

6.1.2 Ystyriaethau meincnodi ........ 18

6.1.3 Cymharu afalau ac eliffantod! ........ 19

6.2 Dod o hyd i'r cydbwysedd ........ 19

6.3 O fesur i reoli ........ 21

6.3.1 Cymryd i ystyriaeth ........ 21

6.3.2 Rhoi cyfrif ........ 21

6.3.3 Cael eich dal i gyfrif ........ 21

6.4 Rhoi'r theori ar waith ........ 22

6.5 Crynodeb: Defnyddio data perfformiad ........ 23

**Atodiad A – Saith cwestiwn** ........ 24

**Atodiad B: Cwestiynau i'w hystyried wrth graffu ar berfformiad** ........ 27

## 1. Ein canllaw ar ddeall a defnyddio data perfformiad

Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor ac canllaw ymarferol, i unrhyw un sy'n dymuno gwella eu sgiliau a'u hyder mewn deall, herio a defnyddio data perfformiad.

Mae'r canllaw:

- Yn amlinellu beth yw data perfformiad
- Yn esbonio'r gwahanol fathau o ddata perfformiad rydych yn debygol o ddod ar eu traws, a sut i'w hadnabod
- Yn rhoi cwestiynau allweddol i chi eu hystyried i'ch helpu i ddeall eich data perfformiad
- Yn dangos i chi cam wrth gam sut i roi'r theori ar waith a symud o fesur perfformiad i reoli perfformiad.

Mae'r canllaw yn fwriadol 'sylfaenol' ei ymagwedd a'i gynnwys. Ei nod yw cynnig cyflwyniad lefel uchel i ddata perfformiad a'i ddefnyddiau. Mae'n cael ei anelu at y sawl sy'n newydd i ddata perfformiad a'r sawl sydd â mwy o brofiad sy'n dymuno edrych o'r newydd ar yr egwyddorion sylfaenol ac arferion gorau.

## 2. Geirfa

Trwy gydol y canllaw hwn, defnyddiwn y termau canlynol i ddisgrifio data perfformiad a'i ddefnyddiau:

**Data perfformiad**: gwybodaeth sy'n caniatáu i chi ddeall i ba raddau rydych yn cyflawni amcanion eich sefydliad a ble mae angen i chi wella.

**Mesur perfformiad**: casglu a dadansoddi amrediad o ddata perfformiad i sicrhau bod gennych chi ddealltwriaeth gadarn o'ch perfformiad.

**Rheoli perfformiad**: gweithredu ar yr wybodaeth honno i sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu diwallu a bod arian cyhoeddus y cael ei wario'n ddoeth.

## 3. Pam mae data perfformiad yn bwysig?

> *"Nid yw mesur y mochyn yn gwneud iddo dyfu"*
> Anhysbys

Efallai y bydd rhai ohonoch chi wedi dod ar draws yr ymadrodd hwn o'r blaen. Mae'n cael ei ddyfynnu'n aml fel dadl *yn erbyn* mesur perfformiad – yr awgrym yw bod mesur perfformiad nid yn unig yn 'ddiwerth' ond y gallai eich atal mewn gwirionedd rhag diwallu'ch nodau. Ac, i rai raddau,

mae hyn yn galllu bod yn wir. Mae mesur heb weithredu yn aneffeithiol. Fodd bynnag, mae gweithredu heb fesur yr un mor aneffeithiol.

Bydd mesur beth rydych yn ei wneud ac, yn bwysicach, effaith y gweithredoedd hynny yn rheolaidd yn eich helpu i ddeall a ydy'ch gweithredoedd yn cael y canlyniadau a ddymunir a hefyd yn caniatáu i chi ymateb yn unol â hynny i sicrhau eich bod yn aros ar y trywydd cywir i gyflawni'ch nodau.

## 4. Beth yw data perfformiad?

Fel y'i ddiffinnir yn yr eirfa, data perfformiad yw gwybodaeth sy'n eich galluogi i ddeall i ba raddau rydych chi'n cyflawni amcanion yr awdurdod a ble mae angen i chi wella o bosib.

Dylai eich helpu i ddeall, er enghraifft:

- A ydy arian yn cael ei wario'n ddoeth;
- A ydy dyletswyddau'n cael eu cyflawni yn unol â'r gofynion cyfreithiol;
- A ydy meysydd gwelliant yn cael eu hamlygu ac ydy camau'n cael eu cymryd arnynt;
- Sut mae pobl yn teimlo eich bod chi / bod eich sefydliad yn perfformio; a
- Sut mae pobl yn teimlo am y gwaith / gwasanaethau rydych yn eu darparu.

Mae ***mathau*** a ***lefelau*** gwahanol o ddata perfformiad, y bydd pob un yn gadael i chi ddeall eich perfformiad o safbwynt penodol. Edrychwn ar y rhain isod.

### 4.1 Mathau o ddata perfformiad

Mae ***tri*** phrif fath o ddata perfformiad:

- Dangosyddion perfformiad;
- Adborth defnyddwyr gwasanaeth; a
- Gwerth am arian.

Mae pob un o'r mathau hyn o ddata perfformiad yn caniatáu i chi ddeall rhan o'r darlun. Wrth eu defnyddio gyda'i gilydd y cewch chi'r ddirnadaeth fwyaf.

**Dangosyddion perfformiad** (sydd hefyd yn cael eu galw'n fesurau perfformiad): Dangosyddion perfformiad yw'r math mwyaf cyffredin o ddata perfformiad am eu bod yn caniatáu i chi **feintoli** eich perfformiad.

Er enghraifft, os eich blaenoriaeth yw "gwneud Cymru'n lanach ac yn wyrddach", byddech chi o bosibl yn mesur "Canran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu / ei ailddefnyddio neu ei gompostio" neu "Nifer y digwyddiadau tipio

anghyfreithlon sy'n cael eu clirio o fewn 5 diwrnod". Mae'r rhain yn **fesurau diriaethol o gynnydd** tuag at y flaenoriaeth a ddewiswch.

Fodd bynnag, cadwch y canlynol mewn cof wrth ddefnyddio dangosyddion perfformiad:

- ***Dangosyddion*** ydynt - maent yn rhoi awgrym o beth sy'n digwydd, nid o reidrwydd y gwirionedd cyfan.
- Maent yn **declyn agor tun** - nid eu bwriad yw dweud wrthych chi pam mae perfformiad ar lefel benodol, dim ond ei bod hi. Mae dangosyddion perfformiad yn fodd i chi wybod pa gwestiynau i'w gofyn nesaf!

## Adborth defnyddwyr gwasanaeth

Mae adborth defnyddwyr gwasanaeth yn caniatáu i chi ddeall sut mae'ch cleientiaid / cwsmeriaid / defnyddwyr gwasanaeth yn **teimlo** am y gwasanaethau rydych chi'n eu darparu. Mae'n caniatáu i chi **ddeall profiad pobl** o'ch gwasanaethau a'r gwahaniaeth maent wedi'i wneud i'w bywydau – yr **effaith**.

Yn ogystal ag arolygon preswylwyr, sy'n ffynhonnell gyfoethog adborth defnyddwyr gwasanaeth, mae llawer o ffynonellau defnyddiol eraill, fel:

- Canmoliaeth / cwynion;
- Data cyfryngau cymdeithasol a / neu ddata digidol arall; ac
- Adborth anffurfiol a geir yn ystod cymorthfeydd a rhyngweithiau cynghorwyr.

Mae adborth defnyddwyr gwasanaeth yn ategu neu'n rhoi **cyd-destun** i'r data meintiol (rhifyddol) ac yn gadael i chi ddeall yn llawer gwell beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio a pham.

Fodd bynnag, rhaid i chi gadw'r canlynol mewn cof wrth ddefnyddio adborth defnyddwyr gwasanaeth:

- Mae'n **oddrychol** ac yn **bersonol** i'r unigolyn sy'n ei roi. Fel y cyfryw, gall pob math o ffactorau allanol ddylanwadu arno. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun wedi derbyn gwasanaeth o'r radd flaenaf, ond os na chawsant y canlyniad roeddent ei eisiau, bydd hyn efallai'n dylanwadu ar eu barn.

## Gwerth am arian


Mae gwerth am arian yn golygu asesu cost darparu gwasanaeth yn berthynol i'ch perfformiad, yn benodol gwerthuso **beth rydych yn ei gyflawni am y gwariant hwnnw**. Gwir mantais gwybodaeth am werth am arian yw ei chymharu ag eraill h.y. beth mae cynghorau lleol eraill

yn ei wario ac yn ei gyflawni o'u cymharu â'ch gwariant a'ch canlyniadau chi? Ydy cynghorau eraill yn 'cyflawni mwy' gyda'r un gwariant neu wrth wario llai?

**Nodyn:** wrth gymharu ag eraill, rydym y trosi gwariant yn 'gost uned'; hynny yw, gwariant y [rhywbeth]. Yn yr enghraifft isod, rydym wedi dewis gwariant y person. Gallem fod wedi dewis gwariant y cais cynllunio a gafwyd neu y cais cynllunio a benderfynwyd. Yr enw ar hyn ydy safoni. Mae safoni'n bwysig wrth gymharu gan ei fod yn dileu amrywiadau yn y data sy'n ganlyniad rhywbeth heblaw perfformiad h.y. maint ardal y cyngor, gwahaniaethau mewn poblogaeth, ac ati.

Gadewch i ni edrych ar enghraifft. Yn **Ffigur 1**, rydym yn cymharu gwariant ar bolisi cynllunio â pherfformiad cynllunio – 'canran y ceisiadau cynllunio a benderfynir yn ar amser'. Sut ydych chi'n meddwl bod eich cyngor chi (a ddangosir â'r 'smotyn' coch) yn perfformio?

### Ffigur 1: Gwerth am arian yn y gwasanaeth cynllunio




*Ffynhonnell: Data alldro refeniw, Llywodraeth Cymru; Data artiffisial a grëwyd gan Data Cymru*

Er mwyn deall eich perfformiad yn well, bydd efallai'n ddefnyddiol rhannu'r pwyntiau data yn ***bedwar*** cwadrant (yn unol â **Ffigur 2**):


Cwadrant 1 = perfformiad gwell a gwariant is
Cwadrant 2 = perfformiad gwell ond gwariant uwch

Cwadrant 3 = perfformiad is ond gwariant is
Cwadrant 4 = perfformiad is a gwariant uwch

**Cwadrant 1**: Dyma'r sefyllfa orau bosibl.

**Cwadrant 2**: Dyma'r senario 'nesaf orau' gan eich bod yn perfformio'n dda, ond mae hynny'n dwyn cost. Efallai y dewiswch felly edrych ar sut mae'r cynghorau yn y cwadrant chwith uchaf wedi llwyddo i gyflawni lefelau perfformiad tebyg wrth wario llai o arian.

## Ffigur 2: Gwerth am arian yn y gwasanaeth cynllunio




**Cwadrant 3**: Er bod eich perfformiad is yn cael ei wrthbwyso gan wariant is, efallai y byddwch am edrych ar sut mae eraill yn llwyddo i berfformio'n well am lefelau gwariant tebyg.

**Cwadrant 4**: Mae hyn yn broblemus - efallai y byddwch am edrych yn fanylach ar eich perfformiad a'ch gwariant.

**Nodyn:** Er bod cost is yn well, mae yna bwynt lle nad yw hyn yn ddichonol. Ar y siart hwn mae'n ymddangos bod y pwynt hwnnw yn £30 y person yn fras. Felly, os cewch eich bod yn gwario llawer llai na'r gweddill, mae hyn yn achos pryder posibl hefyd.

Mae gwybodaeth am werth am arian o fudd wrth adael i ni ddeall effeithlonrwydd ariannol gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi gadw'r canlynol mewn cof wrth ddefnyddio'r cyfryw ddata:

- Cymerwch ofal wrth **ddiffinio cost uned** – mae angen iddi fod nid yn unig yn berthnasol, ond mae'n bosibl bod ffyrdd gwahanol o edrych arni. Er enghraifft, wrth ystyried gwariant ar gludiant cyhoeddus, efallai y dewiswch edrych arno 'fesul teithiwr'. Fodd bynnag, i gynghorau lleol sydd ag ardal ddaearyddol fawr, bydd efallai'n fwy perthnasol edrych ar wariant fesul 'milltir deithiwr' gan fod hyn yn cymryd i ystyriaeth y galw a'r ardal ddaearyddol fel ei gilydd.

## 4.2 Lefelau data perfformiad

Hefyd mae **lefelau** gwahanol gan ddata perfformiad, y mae pob un yn cynnig safbwynt gwahanol ar eich perfformiad.

**Data perfformiad 'canlyniad a rennir':** Mae'r data hwn yn mesur perfformiad yn erbyn canlyniadau pwysig, lefel uchel i Gymru. Yr enw ar y rhain yw 'canlyniadau a rennir' gan nad yw'r cyfrifoldeb dros gyflawni'r canlyniadau yn gyfrifoldeb unrhyw un sefydliad na sector yn unig. Yn hytrach, fe'i rhennir ar draws llawer. Mae'r dangosyddion llesiant cenedlaethol yn enghraifft dda o'r categori hwn o ddata perfformiad.

**Data perfformiad cenedlaethol:** Mae'r data hwn yn mesur perfformiad yn erbyn canlyniadau sy'n berthnasol i bob cyngor lleol (neu bob sefydliad mewn sector penodol). Mae'r data yn cael ei gasglu a'i rannu ar draws pob cyngor lleol, i annog cymhariaeth a rhannu gwersi. Mae enghreifftiau o'r categori hwn o ddata perfformiad yn cynnwys:

- Data meincnodi cynghorau lleol; a
- Data perfformiad gwasanaeth penodol.

**Data perfformiad lleol:** Mae'r data hwn yn mesur perfformiad yn erbyn canlyniadau lleol. Mae'r rhain yn debygol o roi dealltwriaeth fwy penodol, fanwl o'ch perfformiad na'r data perfformiad cenedlaethol.

**Data cyd-destun:** Er nad yw'n ddata perfformiad yn union, mae data cyd-destun yn rhan hanfodol o'r darlun perfformiad gan ei fod yn caniatáu i chi dreiddio i mewn i'r data perfformiad ac ateb cwestiynau a allai godi.

### 4.3 Crynodeb – beth yw data perfformiad?

Mae data perfformiad yn wybodaeth sy'n caniatáu i chi ddeall pa mor dda rydych yn perfformio a ble y gall fod angen i chi wella.

Mae tri phrif **fath** o ddata perfformiad:

- Dangosyddion perfformiad
- Adborth defnyddwyr gwasanaeth
- Gwybodaeth gwerth am arian.

Mae pedair **lefel** o ddata perfformiad:

- Data perfformiad 'canlyniad a rennir'
- Data perfformiad cenedlaethol
- Data perfformiad lleol
- Data cyd-destunol.

## 5. Deall data perfformiad

Yn ein canllaw hyfforddiant '**Data 101: cyflwyniad i ddeall a defnyddio data**', cyflwynom ni **saith cwestiwn allweddol** sydd wedi'u llunio i'ch helpu i asesu cadernid, dilysrwydd a neges gyffredinol y data rydych yn edrych arno. Mae'r cwestiynau hyn (a restrir yn **Atodiad A**), ynghyd ag esboniad byr, i gyd yr un mor berthnasol i ddeall data perfformiad. Serch hynny, mae gan nifer ohonynt gymwysiadau penodol mewn perthynas â deall data perfformiad, y byddwn ni'n eu trafod yn fanylach isod. Y cwestiynau hyn yw:

- Ydy'r data yn berthnasol?
- Sut mae'r data yn cael ei gyflwyno?

Hefyd cyflwynwn i chi y cwestiynau penodol y dylech chi eu gofyn i sicrhau eich bod yn deall eich data perfformiad:

- Pa olwg sydd ar berfformiad 'da'?
- Sut ydw i'n perfformio?

### 5.1 Ydy'r data yn berthnasol?

Wrth edrych ar ddata perfformiad, data perthnasol yw data sy'n eich helpu i ddeall eich **cynnydd tuag yr amcan / blaenoriaeth**.

Gadewch i ni edrych ar enghraifft. Mae dau ddangosydd perfformiad isod:

**% y disgwyblion blwyddyn 11 sy'n cyflawni 5 A* - C**

**% yr aelwydydd sy'n cael eu hatal rhag digartrefedd**

Mae'r ddwy yn enghreiftiau da o ddangosyddion perfformiad, ond a ydynt yn berthnasol? Wel, mae'n dibynnu ar eich amcan.

Os eich amcan yw: **Mae pobl yn Sir y Fflint yn addysgedig a medrus**

Yna fe welwch yn eithaf cyflym fod y dangosydd perfformiad cyntaf yn berthnasol, ond nid felly yr ail ddangosydd perfformiad.


## 5.2 Sut mae'r data yn cael ei gyflwyno?

Mae data yn cael ei gyflwyno mewn amrywiaeth o fformatau, pob un â'i **bwrpas** ei hun. Mae niferoedd neu gyfrifiadau yn eich helpu i ddeall maint neu swm rhywbeth. Wrth edrych ar ddata perfformiad, mae canrannau a chyfraddau yn cael eu defnyddio i **safoni** perfformiad er mwyn galluogi cymharu. Fel y soniwyd o'r blaen, mae safoni'n bwysig wrth gymharu gan ei fod yn dileu amrywiadau yn y data sy'n ganlyniad rhywbeth heblaw perfformiad h.y. maint ardal cyngor, gwahaniaethau mewn poblogaeth, ac ati.

Gadewch i ni edrych ar enghraifft.

Dengys **Ffigur *3*** isod **nifer** yr aelwydydd y mae'r cyngor lleol wedi llwyddo i'w hatal rhag mynd yn ddigartref. Fel y gallech ddisgwyl, mae'r cynghorau mwy o faint, â phoblogaeth ddwys, wedi atal mwy o bobl rhag mynd yn ddigartref na'r cynghorau â phoblogaethau llai. Mae hyn yn gwneud synwyr gan mae'n debyg bod mwy o bobl mewn risg o fynd yn ddigartref.


## Ffigur 3: Nifer yr aelwydydd sydd wedi'u hatal yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref, 2021-22




*Ffynhonnell: Casgliad data digartrefedd, casgliad Llywodraeth Cymru*

Fodd bynnag, fel a welir yn **Ffigur 4**, wrth safoni'r data, yn yr achos hwn trwy gyfrifo canran, mae'r darlun yn wahanol iawn. Er enghraifft, mae Blaenau Gwent (porffor) wedi symud o fod yn hanner is y tabl yn **Ffigur 3**, i'r ail o'r brig yn **Ffigur 4**. Felly, er nad ydynt o bosibl wedi helpu *cynifer* o bobl â chynghorau eraill, maent wedi helpu cyfran uwch o'r sawl roedd angen help arnynt.

## Ffigur 4: Canran yr aelwydydd sydd wedi'u hatal yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref, 2021-22




*Ffynhonnell: Casgliad data digartrefedd, casgliad Llywodraeth Cymru*

## 5.3 Pa olwg sydd ar berfformiad 'da'?

Er mwyn deall sut rydych chi'n perfformio, mae angen i chi ddeall pa olwg sydd ar berfformiad 'da'. Er enghraifft, ydy perfformiad 'da' yn cael ei gynrychioli gan werth uwch neu is? Cyfeirir at hyn yn aml fel y ***cyfeiriad teithio a ffefrir.***

Fel arfer mae'n amlwg o'r diffiniad neu o'r ffordd y cyflwynir y data. Ond nid yw bob amser mor syml â hynny.

Isod mae ***pedwar*** dangosydd perfformiad. Wrth edrych ar y diffiniad, ydych chi'n meddwl bod perfformiad 'da' yn cael ei gynrychioli gan werth **uwch** neu **is**?

*1. Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)*

*2. Canran y digwyddiadau tipio anghyfreithlon yn cael eu clirio o fewn 5 diwrnod*

*3. Nifer y cwynion a dderbynir am bob 10,000 o bobl*

*4. Canran yr oedolion digartref a gefnogir mewn llety dros dro*

Mae'r ddau gyntaf yn weddol syml:

1. Byddech chi am weld **llai** o adawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Felly, cynrychiolir perfformiad 'da' gan werth **is**.

2. I'r gwrthwyneb, byddech chi am weld **mwy** digwyddiadau tipio anghyfreithlon yn cael eu clirio o fewn 5 diwrnod. Felly, yn yr achos hwn, 'cynrychiolir perfformiad 'da' gan werth **uwch**.

Fodd bynnag, mae'r ddwy enghraifft nesaf yn llai amlwg:

3. Ar yr olwg gyntaf, byddech efallai'n meddwl bod derbyn llai o gwynion yn well am fod hyn yn awgrymu bod pobl yn hapusach. Fodd bynnag, os ydych ond wedi gwneud eich gwasanaeth cwynion ar gael yn ddiweddar ac yn awyddus i bobl ei ddefnyddio, efallai bod gwerth uwch yn 'dda'.

4. Unwaith eto, byddech efallai'n meddwl bod cartrefu mwy o bobl mewn llety dros dro yn well na digartrefedd. Ac ydy, mae. Fodd bynnag, ateb byr-dymor yn unig yw llety dros dro. Felly, gallai gweld y gwerth hwn yn codi dros amser fod yn achos pryder.

Yn eithaf aml, mae angen deall y cyd-destun lleol i ddeall pa olwg sydd ar 'dda' i'ch cyngor chi. Hynny yw, yr amgylchiadau lleol neu'r penderfyniadau sydd wedi'u gwneud am gyflenwi gwasanaeth. Os nad yw'r cyfeiriad teithio a ffefrir yn amlwg o'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno i chi, holwch.

## 5.4 Sut ydw i'n perfformio?

Yn aml cyflwynir data perfformiad mewn ffyrdd sy'n ei wneud yn haws i'r darllenydd ei ddehongli. Gadewch i ni edrych ar rai o'r dulliau mwyaf cyffredin.

### 5.4.1 Graddau RAG

Mae graddau RAG, sydd hefyd yn cael eu galw'n adrodd Goleuadau Traffig, yn defnyddio'r lliwiau coch, ambr a gwyrdd (**R**ed, **A**mber & **G**reen) i ddynodi perfformiad. Dull syml iawn ond effeithiol a seilir ar y ddealltwriaeth fras bod gwyrdd = mynd ('da') a choch = stop ('drwg').

Fel a welir yn **Ffigur 5**, mae'n arbennig o effeithiol o'i gymhwyso i set ddata benodol am ei fod yn caniatáu i chi nodi cryfderau a gwendidau'r set ddata dan sylw yn gyflym ac yn hawdd.


**Ffigur 5: Delweddu graddau RAG**

| Dangosydd perfformiad | Cyfeiriad Teithio | Gwerth cyfredol | Gwerth blaenorol | Perfformiad RAG |
|---|---|---|---|---|
| % o stoc tai awdurdodau lleol sy'n cydymffurfio'n llawn â SATC ar 31 Mawrth | > | 84 | 86 | |
| % yr aelwydydd y cafodd eu digartrefedd ei atal neu ei leddfu | > | 65 | 63 | |
| % y gwastraff dinesig sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio | > | 59 | 59 | |
| Nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch | < | 5.3 | 6.5 | |
| Nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs) fesul 1,000 o'r boblogaeth 16-24 oed | < | 0.02 | 0.03 | |
| % y ffyrdd a gynhelir gan awdurdodau lleol sydd mewn cyflwr gwael | < | 5 | 4 | |

Ond, er ei fod yn syml, mae sawl peth bydd angen i chi eu deall wrth ddefnyddio graddau RAG:

- **Mae ffyrdd gwahanol o 'gyfrifo' gradd**
  Dengys **Ffigur 6** ddwy enghraifft o sut allai graddau RAG gael eu 'cyfrifo'. Mae'r cyntaf yn cynrychioli **barn** unigolyn o berfformiad, pan fyddant yn dewis a yw perfformiad 'ar y trywydd cywir' neu beidio. Mae'r ail yn cynrychioli dull mwy **meintiol**, ar sail a yw eich perfformiad wedi gwella rhwng y cyfnod presennol ac un blaenorol. Hynny yw, a yw wedi dilyn y cyfeiriad teithiol a ffefrir.

**Ffigur 6: - Deall graddau RAG**




Mae'r ddau ddull yn ddilys, ond mae'n bwysig eich bod yn deall pa un sydd wedi cael ei ddefnyddio.

- **Gallant guddio pwysleisiau gwahanol yn y darlun o berfformiad**
  Yn yr enghreifftiau uchod, mae gan y graddau RAG **ffocws lleol** iawn ac nid ydynt yn cynnig golwg ar sut mae'ch perfformiad chi'n cymharu ag eraill. Er enghraifft, gall mesur gael ei farcio'n 'Wyrdd' am y bernir ei fod 'ar y trywydd cywir' neu mae perfformiad wedi gwella. Ond petaech yn treiddio'n ddyfnach mae'n bosibl y gwelwch, er bod eich perfformiad 'ar y trywydd cywir' neu wedi gwella, nad ydych yn perfformio cystal â chynghorau eraill. Felly, wrth ddefnyddio graddau RAG, mae'n bwysig ystyried sut mae'ch perfformiad chi yn cymharu ag eraill, lle bo'n berthnasol.

### 5.4.2 Perfformiad chwartel

Yn aml cyflwynir data perfformiad yn nhermau perfformiad chwartel. Defnyddir perfformiad chwartel i ddangos perfformiad **cymharol** h.y. pa mor dda gwnaethoch chi berfformio o'ch cymharu â'ch cymheiriaid.

### Beth yw chwarteli?

Yn syml, mae chwarteli yn werthoedd sy'n rhannu set ddata drefnedig yn bedwar chwarter cyfartal, fel bod 25% o'r data yn y chwarter uchaf, 25% yn y chwarter canol uwch ac yn y blaen. Am canllaw manylach ar gyfrifo chwarteli, gweler ein canllaw hyfforddiant '**Canllaw i ystadegau cryno**'.

Yn nhermau perfformiad, mae deall eich **safle** (y chwarter rydych chi ynddo) yn caniatáu i chi ddeall yn gyflym ac yn rhwydd sut mae'ch perfformiad chi yn cymharu â'r holl gynghorau eraill.


Er enghraifft, mae'r frawddeg sy'n dilyn yn dweud wrthych eich bod ymhlith y cynghorau a berfformiodd yn well am y dangosydd dan sylw:

"Roedd ein perfformiad yn y dangosydd hwn yn y **chwarter uchaf**"

## Denhongli perfformiad chwartel

Fel a ddangosir yn **Ffigur 7,** defnyddir **lliw** yn aml i wneud dehongli'n haws.

### Ffigur 7: Dehongli perfformiad chwartel




Os yw'ch perfformiad yn y chwarter uwch, rydych ymhlith y cynghorau sy'n perfformio orau – y 25% gorau.

Os yw'ch perfformiad yn y chwarter canol uwch, mae'ch perfformiad uwchlaw'r cyfartaledd.

Os yw'ch perfformiad yn y chwarter canol is, mae'ch perfformiad islaw'r cyfartaledd.

Os yw'ch perfformiad yn y chwarter is, rydych ymhlith y cynghorau sy'n perfformio gwaelaf - y 25% gwaelod.

Efallai y dewiswch edrych hefyd ar sut mae'ch safle wedi newid dros amser, gan y bydd hyn yn eich helpu i ddeall a yw eich perfformiad yn gwella o'i gymharu â'ch cymheiriaid.

Fodd bynnag, wrth edrych ar newid dros amser, mae angen cadw mewn cof bod eich **perfformiad cymharol** (eich safle chwartel) yn cael ei ddylanwadu nid yn unig gan sut rydych chi wedi perfformio, ond hefyd sut mae'ch cymheiriaid wedi perfformio. Felly, gallai'ch **perfformiad absoliwt** (sut rydych wedi perfformio) a'ch perfformiad cymharol ddweud storïau gwahanol. Er enghraifft:

- Gallai gwelliant absoliwt yn eich perfformiad arwain at ddim newid i'ch safle chwartel gan fod eich cymheiriaid o bosib wedi gwella hefyd; neu
- Gallai dim newid yn eich perfformiad absoliwt chi arwain at berfformiad chwartel gwell neu waeth yn dibynnu ar sut mae'ch cymheiriaid wedi perfformio.

Yn ogystal, gan fod chwarteli wedi'u seilio ar rannu set ddata yn bedwar chwarter cyfartal, fe welwch o bosibl bod gwerthoedd tebyg (sy'n


awgrymu lefel debyg o berfformiad) mewn chwarterau gwahanol dim ond oherwydd eu safle yn y drefn.

### 5.4.3 Targedau

Mae targedau'n cynrychioli'r **lefel berfformiad gynlluniedig** neu **ddymunol** a gallant chwarae rôl bwysig yn eich helpu i ddeall mwy am eich perfformiad.

Gadewch i ni edrych ar enghraifft:


**Ffigur 8: Nifer y cwynion a dderbyniwyd**




*Ffynhonnell: Data artiffisial a grëwyd gan Data Cymru*

Ar sail **Ffigur 8**, mae'n rhesymol casglu bod ymdrechion i leihau nifer y cwynion a dderbynnir yn mynd yn dda....

**Ffigur 9: Nifer y cwynion a dderbyniwyd**




*Ffynhonnell: Data artiffisial a grëwyd gan Data*

Ond, fel y dengys **Ffigur 9**, o'i gymharu â'r targed, gwelwn fod perfformiad yn llai na'r disgwyl.

Fodd bynnag, mae sawl peth i gadw mewn cof os defnyddiwch dargedau:

1. **Nid yw colli targed o reidrwydd yn arwydd 'methiant'** – gallai fod llawer o resymau pam na chafodd targed ei gyrraedd, na fydd pob un yn ymwneud â pherfformiad. Bydd annog trafodaethau agored am berfformiad yn caniatáu i bawb ddysgu o'r profiad. A chofiwch gydnabod beth sydd wedi cael ei gyflawni, yn ogystal â'r meysydd sydd i'w gwella.

2. **Gall fod achlysuron pan nad yw targed yn briodol** - am rai mesurau efallai nad ydych yn gallu neu'n dymuno pennu sut mae gwelliant yn edrych.

3. **Nid oes rhaid i dargedau olygu 'mwy' neu 'gwell' bob tro** – gall fod achlysuron pan cynnal eich lefelau perfformiad presennol, neu hyd yn oed eu gostwng, yw'r dewis mwyaf priodol.

### 5.4.4 Targedau SMART

Os na chânt eu defnyddio'n briodol, gall targedau gael effaith niweidiol ar eich perfformiad a'ch staff, er enghraifft:

**Cymhellion gwrthnysig** – byddwch efallai'n canolbwyntio mwy yn y pen draw ar y camau sy'n eich helpu i gyrraedd y targed yn fwyaf effeithiol, yn lle gwneud beth sydd orau i'r dinesydd.

**Staff sy'n brin o gymhelliant** – os na all staff medrus ddefnyddio eu barn broffesiynol mewn sefyllfa benodol oherwydd yr angen i gyrraedd targed, maent yn colli eu cymhelliant yn fuan.

**Staff isel eu morâl** – bydd staff efallai'n teimlo'n ddigalon neu'n aneffeithiol os bydd targedau'n cael eu colli'n gyson (yn arbennig os ydynt yn afrealistig).

Felly, os ydych chi'n defnyddio targedau fel rhan o'ch trefniadau monitro perfformiad, mae'n bwysig sicrhau eu bod yn **SMART**. Mae hyn yn golygu sicrhau bod eich targedau yn:

| | |
|---|---|
| **Penodol** [**S**pecific] | Rhaid i'r targed ddatgan yn glir iawn yn union beth yw'ch nod ac erbyn pryd. |
| **Mesuradwy** [**M**easurable] | Rhaid i'r targed allu cael ei fesur yn wrthrychol – mesur meintioladwy o lwyddiant. |
| **Cytunwyd** [**A**greed] | Rhaid i'r targed gael ei gytuno gan bawb dan sylw – bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pawb yn deall beth mae angen ei gyflawni a sut maent yn cyfrannu ato. |
| **Realistig** [**R**ealistic] | Rhaid i'r targed fod yn heriol ond yn realistig.<br><br>Mae llawer o ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu beth sy'n 'realistig', gan gynnwys:<br><br>**Ffactorau rheoladwy** - i wella perfformiad, bydd rhaid i rywbeth arall newid, fel adnoddau, lefelau staffio neu ddulliau o weithio - oes gennych chi'r adnoddau, y staff a / neu'r cynlluniau i gyflawni'r gwelliant mae ei eisiau? |

| | |
|---|---|
| | **Ffactorau anweddol** – a fu unrhyw newidiadau mewn polisi neu ddeddfwriaeth a allai effeithio ar beth mae angen i chi ei gyflawni?<br><br>**Rhagweladwyedd** – ar sail y tueddiadau hanesyddol, ydy perfformiad yn debygol o wella?<br><br>**Capasiti i wella** – os ydych chi'n perfformio'n dda yn barod, a oes angen anelu'n uwch? Allai'r adnoddau gael eu defnyddio'n well rhywle arall?<br><br>**Methodeg am gyfrifo** – a fu unrhyw newidiadau i'r diffiniad o'r mesur neu ddull ei gyfrifo a fydd yn effeithio ar eich targed? |
| **Amserlen** [**T**imebound] | Rhaid bod gan y targed amserlenni clir am gyflawni'r lefel berfformiad a ddymunir, fel eleni, y flwyddyn nesaf, neu mewn pum mlynedd. Mae hyn yn helpu pobl i ddeall beth maent yn gweithio tuag ato. |

### 5.5 Crynodeb: Deall data perfformiad

Wrth edrych ar ddata perfformiad, mae angen i chi ystyried:

- A yw'r data yn berthnasol?
- Sut mae'r data yn cael ei gyflwyno?
- Pa olwg sydd ar berfformiad da?
- Sut ydw i'n perfformio?

Mae data perfformiad yn aml yn cael ei gyflwyno mewn ffyrdd penodol i'ch helpu i ddeall **eich** perfformiad **chi**:

- Graddau RAG
- Dadansoddiad chwartel
- Targedau.

## 6. Defnyddio data perfformiad

Yn yr adran hon, edrychwn ar rai technegau a fydd yn eich helpu i ddefnyddio'ch data i ddeall eich perfformiad yn well.

Edrychwn hefyd ar sut i ddefnyddio'r wybodaeth hon ac, yn hanfodol, sut i weithredu arni i sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu bodloni a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

## 6.1 Meincnodi

Meincnodi yw'r broses o **gymharu** eich perfformiad chi â'ch cymheiriaid i ddysgu oddi wrth eich gilydd a hybu cyd-welliant. Mae'n chwarae rôl bwysig iawn mewn mesur perfformiad am ei fod yn eich helpu i wneud y canlynol:

- **Cael persbectif**: mae deall sut mae'ch perfformiad yn cymharu ag eraill yn caniatáu i chi ddeall eich perfformiad eich hun yn well. Er enghraifft, efallai y gwyddoch eich bod wedi cymeradwyo 56% o'ch ceisiadau cynllunio o fewn 8 wythnos eleni, sy'n welliant ar yr 50% a gymeradwywyd y llynedd. Ond ydy 56% yn dda? Bydd cymharu â'ch cymheiriaid yn gadael i chi ddeall a yw eich perfformiad yn ardderchog neu a oes lle i wella.
- **Cadarnhau rhagdybiaethau**: bydd deall sut mae'ch perfformiad yn cymharu ag eraill yn eich helpu hefyd i ddeall a yw'r hyn roeddech yn meddwl ei fod yn wir yn wir. Dyma'r dystiolaeth mae arnoch ei hangen i ddeall a ydych chi mewn gwirionedd "y gorau yng Nghymru!"
- **Blaenoriaethu cyfleoedd i wella**: gallai deall ble mae'ch cymheiriaid yn performio'n 'well' na chi yn eich helpu i nodi ble i ganolbwyntio'ch ymdrechion.
- **Nodi cyfleoedd penodol i ddysgu**: gall deall ble mae'ch cymheiriaid yn performio'n 'well' na chi eich grymuso hefyd i drafod eu dulliau ac a allai mabwysiadu arferion tebyg fod o fudd i chi.
- **Gosod disgwyliadau perfformiad:** gall gwybod sut mae eraill yn perfformio eich helpu i ddeall beth allai fod yn bosibl.

Mae gwahanol ddulliau y gallwch gymharu, pob un yn rhoi cipolwg gwahanol i chi ar eich data. Ond mae gan bob dull ei gyfyngiadau y mae angen i chi eu cadw mewn cof.

### 6.1.1 Ystyriaethau amserlen

Gallwch ddewis cymharu'ch perfformiad **o fewn cyfnod penodol** neu **dros amser**.

Mae cymariaethau **o fewn cyfnod penodol** yn caniatáu i chi ddeall sut rydych yn perfformio **ar hyn o bryd** o'ch cymharu ag eraill. Ond nid yw'n caniatáu i chi ddeall sut mae'r perfformiad hwnnw wedi newid dros amser.

Mae cymharu perfformiad **dros amser** yn caniatáu i chi ddeall sut mae perfformiad wedi newid a sut mae'r patrwm (neu'r 'duedd') yna yn cymharu ag eraill. Gall eich helpu hefyd i weld yr effaith mae ffactorau allanol (e.e. pandemig byd-eang) wedi'i chael o bosibl ar berfformiad.

Fodd bynnag, gall fod yn fwy anodd hoelio sylw ar berfformiad ar bwynt penodol mewn amser.

### 6.1.2 Ystyriaethau meincnodi

Mae amrywiaeth o opsiynau hefyd ynghylch **pwy** rydych yn cymharu â nhw:

#### Y 'cyfartaledd' cenedlaethol

Bydd cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn eich helpu i ddeall 'yn fras' sut rydych yn cymharu â'ch cymheiriaid. Mae'n **hawdd ei ddehongli** gan y gallwch ddeall yn gyflym iawn a ydych yn perfformio'n 'well' neu'n 'waeth' na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Fodd bynnag, mae'n **cuddio'r amrediad o berfformiad ledled Cymru**. Mae perfformiad sy'n "well na'r cyfartaledd cenedlaethol" yn llai tebygol o ddenu beirniadaeth ni waeth sut rydych yn cymharu â'ch cymheiriaid.

Mae'r 'cyfartaledd' cenedlaethol yn cael ei yrru gan berfformiad pob cyngor hefyd, felly gall dod dan **ddylanwad nifer fach o berfformwyr da iawn (neu wael iawn)**. Gan hynny, nid dyma'r gynrychiolaeth orau bob amser o berfformiad ar lefel Cymru.

#### Pob cyngor lleol

Mae cymharu'ch perfformiad yn erbyn **pob cyngor lleol** yn cynnig **dealltwriaeth fras** o sut wnaethoch chi yn erbyn eich cymheiriaid.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod **nad oes gan bob cyngor lleol** nodweddion poblogaeth nac anghenion tebyg. Gall y ffactorau cymdeithasol hyn ddylanwadu'n sylweddol ar berfformiad, ac ni fydd eu heffaith bob amser yn amlwg ar yr olwg gyntaf.

#### Cynghorau lleol tebyg

Wrth gymharu â chynghorau lleol eraill, gall helpu i ganolbwyntio'ch cymariaethau ar y rhai sy'n **fwyaf tebyg** i chi – bydd hyn yn gwneud eich cymariaethau'n llawer **mwy ystyrlon**.

Ond mae llawer o **ffactorau** a all gael eu defnyddio i **bennu tebygrwydd**, fel maint poblogaeth, dadansoddiad oedran, statws amddifadedd, ac

ati. Mae'n bwysig, felly, deall sut mae'r tebygrwydd wedi cael ei bennu er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn **ddull priodol** am y data rydych yn ei gymharu.

### 6.1.3 Cymharu afalau ac eliffantod!

Ni waeth pwy rydych yn dewis cymharu â nhw, mae angen i chi wneud yn siŵr bod y data wedi cael ei gasglu'n **gyson**. Bydd unrhyw amrywiaeth yn null ei gasglu yn effeithio ar ei gymaradwyedd.

Fodd bynnag, at ddibenion meincnodi, ni ddylem wrthod 'digon da' wrth fynd ar drywydd perffeithrwydd. Un o'r dadleuon amlaf yn erbyn meincnodi yw "rydym yn cymharu afalau a gellyg". Ac eto, mae afalau a pherau'n eithaf tebyg – mae'r ddau yn ffrwythau bach, gwyrdd, lled grwn sy'n tyfu ar goed yn y DU. Felly er ei fod yn bwysig, yn amlwg, dileu amrywiadau yn y data nad ydynt yn ganlyniad perfformiad, cyn belled ein bod yn deall ac yn derbyn y gall fod **gwahaniaethau bach** yn y data, efallai bod afalau a gellyg yn iawn? Wrth reswm, petawn ni'n cymharu afalau ac eliffantod, efallai y byddai gennym ni broblem!

Yn yr un modd, rhaid i'r data ymwneud â **chyfnodau cymaradwy** - nid oes yr un fantais i gymharu ffigur dyddiol mewn un cyngor â ffigur blynyddol mewn cyngor arall.

Ac yn olaf, fel rydym wedi crybwyll o'r blaen, dylai'r data gael ei '**safoni**' er mwyn gwneud cymariaethau dilys.


## 6.2 Dod o hyd i'r cydbwysedd

Wrth geisio deall eich perfformiad, mae'n bwysig ystyried **amrediad o ddata** – ni fydd yr un eitem ddata unigol yn caniatáu i chi weld y darlun cyfan. Mae angen deall nid yn unig **sut** rydych yn perfformio, ond **pam**. Felly mae arnoch chi angen **darlun cytbwys** o berfformiad.

Gadewch i ni edrych ar enghraifft:

Rydych yn craffu ar berfformiad eich adran gwasanaeth cymdeithasol plant. Dengys **Ffigur 10** fod eich cyngor lleol wedi cwblhau 77% o ymweliadau statudol yn unol â'r rheoliadau eleni, o gymharu ag 85% y llynedd.


### Ffigur 10: Canran yr ymweliadau statudol a gwblhawyd yn unol â'r rheoliadau




*Ffynhonnell: Data artiffisial a grëwyd gan Data Cymru*


Ar yr olwg gyntaf, efallai bod hyn yn awgrymu dirywiad ym mherfformiad eich cyngor. Fodd bynnag, mae ymchwiliad pellach yn datgelu bod nifer y gweithwyr cymdeithasol wedi aros yn gyson am yr ychydig flynyddoedd diwethaf (**Ffigur 11**), tra bod nifer yr ymweliadau statudol gofynnol wedi cynyddu (**Ffigur 12**).

### Ffigur 11: Nifer y gweithwyr cymdeithasol Cyfwerth ag Amser Llawn




*Ffynhonnell: Data artiffisial a grëwyd gan Data Cymru*


### Ffigur 12: Nifer yr ymweliadau statudol gofynnol




*Ffynhonnell: Data artiffisial a grëwyd gan Data Cymru*

Mae hyn yn awgrymu bod nifer yr ymweliadau statudol mae angen i bob gweithiwr cymdeithasol eu cwblhau wedi codi'n gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac ar gyfradd gyflymach na gweddill Cymru (**Ffigur 13**).

### Ffigur 13: Nifer yr ymweliadau statudol sy'n ofynnol gan bob gweithiwr cymdeithasol CALl




*Ffynhonnell: Data artiffisial a grëwyd gan Data Cymru*

Bellach mae gennych olwg lawer mwy cynhwysfawr a chytbwys o berfformiad, a fydd yn eich helpu i wneud **penderfyniad gwybodus** am sut i ymateb.

## 6.3 O fesur i reoli

Wedi ystyried sut rydym yn datblygu ein dealltwriaeth trwy ddata perfformiad, edrychwn nawr ar sut i gymhwyso'r **wybodaeth honno** i sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu diwallu a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth, h.y. sut y symudwn o fesur perfformiad i reoli perfformiad. Mae tair prif agwedd i hyn:

- Cymryd i ystyriaeth;
- Rhoi cyfrif; a
- Chael eich dal i gyfrif.

### 6.3.1 Cymryd i ystyriaeth

Mae cymryd i ystyriaeth yn golygu deall eich perfformiad (fel rydym eisoes wedi trafod) a defnyddio'r ddirnadaeth honno i **wneud penderfyniadau gwybodus** am eich camau nesaf. Er enghraifft, efallai y bydd rhaid i chi ystyried a oes angen addasu neu newid eich ymagwedd neu'ch ddulliau.

Argymhellir eich bod yn cymryd i ystyriaeth eich perfformiad yn rheolaidd er mwyn gallu nodi ac addasu i broblemau posibl wrth iddynt godi. Hefyd bydd monitro perfformiad yn rheolaidd yn caniatáu i chi nodi perfformiad problemus, (ac ymdrin ag ef) fel gwneud beth mae angen ei wneud i ddangos 'gwelliant' yn y data yn hytrach na beth allai fod o fudd i'r dinasyddion mewn gwirionedd.

### 6.3.2 Rhoi cyfrif

Mae rhoi cyfrif yn golygu **dweud wrth bobl *eraill***, yn arbennig eich preswylwyr, sut rydych yn perfformio. Rhaid i hyn gynnwys y meysydd hynny lle mae lle i wella. Gall bod yn agored ac yn onest am eich perfformiad helpu i feithrin ymddiriedaeth yn eich cymunedau ac annog preswylwyr i ymgysylltu â chi.

### 6.3.3 Cael eich dal i gyfrif

Trwy *roi cyfrif* am eich perfformiad, rydych yn **galluogi'ch dinasyddion** i'ch dal chi i gyfrif am eich perfformiad. Dyma asgwrn cefn democratiaeth. Mae adborth dinasyddion yn hanfodol i'ch helpu i ddeall anghenion o fewn y gymuned ac i ba raddau maent yn cael sylw.

Yn yr un modd, fel Cynghorwyr, mae gennych rôl i'w chwarae mewn **dal swyddogion i gyfrif**; mewn craffu ar berfformiad a'i herio. Yn **Atodiad B**, rydym wedi rhoi rhestr o gwestiynau i'w hystyried wrth adolygu neu graffu ar berfformiad.

## 6.4 Rhoi'r theori ar waith

Mae rheoli perfformiad yn arf grymus am helpu i hybu gwelliant gwirioneddol. Fodd bynnag, mae'n rhaid ei **wneud yn gywir** – mae rheoli perfformiad sydd wedi'i ddylunio'n wael yn gallu arwain at:

- ymddygiad amddiffynnol,
- obsesiwn gyda bod 'uwchlaw'r cyfartaledd' ar bob mesur; o gyrraedd targedau ni waeth beth fo'r canlyniadau annisgwyl, a
- ffocws ar rifau heb ddeall sut maent yn gysylltiedig â chanlyniadau a bywydau dinasyddion lleol.

Fel Cynghorwyr, mae gennych chi rôl allweddol i'w chwarae wrth wneud yn siŵr y caiff ei wneud yn gywir. Rydych mewn sefyllfa unigryw i **feithrin y diwylliant cywir** – un sydd:

- Yn seiliedig ar ymddiriedaeth a bod yn agored, lle bo gan staff y rhyddid i fethu heb ofn bai – wedi'r cyfan, mae'r gwersi gorau yn aml yn cael eu sylweddoli trwy geisio a methu.
- Yn gwerthfawrogi tystiolaeth.
- Ar agor i arloesi ac yn grymuso pobl i allu rhoi cynnig ar bethau newydd.

> *"Councillors play a key role in setting the tone and enabling the type of open-minded curiosity which enables effective performance management to thrive*
> Performance management guide for Councillors, LGA, Mai 2022

Yn yr un modd, gallwch helpu i sicrhau bod y broses rheoli perfformiad yn **hyblyg a dynamig**. Gall fod yn hawdd hoelio sylw ac adnoddau ar broses gymharol statig sy'n diffinio ac yn monitro dangosyddion perfformiad allweddol. Ond mae gwerth gwirioneddol rheoli perfformiad i'w weld mewn proses **ddynamig, ymatebol**, sy'n rhoi i arweinwyr yr wybodaeth mae arnynt ei hangen i wneud penderfyniadau ac annog newid.

Ar nodyn mwy ymarferol, gallwch chi helpu i sicrhau:

- Bod amcanion yn glir ac yn canolbwyntio ar wella bywydau'ch dinasyddion;
- Bod y data cywir yn cael ei ddefnyddio – mae temptasiwn i ganolbwyntio ar ddata mae'n hawdd ei fesur, ond nid dyna'r data gorau bob tro; a
- Bod y data yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol; i gymryd i ystyriaeth, rhoi cyfrif a chael eich dal i gyfrif.

### 6.5 Crynodeb: Defnyddio data perfformiad

- Mae meincnodi yn ategu defnydd effeithiol ar ddata perfformiad. Mae ffyrdd gwahanol o gymharu, pob un â'i manteision ac anfanteision ei hun.
- Mae arnoch chi angen darlun cytbwys o berfformiad – mae angen i chi ddeall y **sut** a'r **pam**.
- Dylai data perfformiad gael ei ddefnyddio i gymryd i ystyriaeth, rhoi cyfrif a chael eich dal i gyfrif.
- Mae gan gynghorwyr rôl hanfodol i'w chwarae mewn meithrin y diwylliant rheoli perfformiad cywir.

## 7. Adnoddau defnyddiol

1. Canllaw rheoli perfformiad i Gynghorwyr, Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA)

   https://www.local.gov.uk/publications/performance-management-guide-councillors

2. Fframwaith o Ddisgrifiadau Rôl a Manylebau Person ar gyfer Aelodau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

   https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=347

## Atodiad A – Saith cwestiwn

- A yw'r data yn berthnasol?
- A yw'r data yn ddibynadwy?
- Pa mor glir yw'r diffiniad?
- Sut mae'r data yn cael ei gyflwyno?
- Beth yw cwmpas y data (amserol, gofodol, cysyniadol)?
- Ydy'r graffeg yn glir?
- A oes unrhyw ffactorau eraill mae angen i chi eu cymryd i ystyriaeth?

Er i ni roi esboniad byr o bob un o'r cwestiynau hyn isod, gallwch weld manylion pellach yn ein canllaw hyfforddiant 'Data 101: cyflwyniad i ddeall a defnyddio data'.

### A yw'r data yn berthnasol?

Dylai'r cwestiwn hwn helpu i sicrhau eich bod yn canolbwyntio ar y data ***cywir***. Hynny yw, data a fydd yn eich helpu i ddeall mwy am eich pwnc dewisol neu'r cwestiwn rydych yn ceisio ei ateb er mwyn i chi allu gwneud penderfyniadau gwell, mwy gwybodus.

### A yw'r data yn ddibynadwy?

Bydd dibynadwyedd unrhyw ddata / set ddata yn dibynnu ar sut y cafodd ei gasglu, ei ddilysu a'i gyhoeddi. Felly, mae bob amser yn werth ceisio deall ffynhonnell y data ac, os oes modd, sut cafodd y data ei gasglu. Mae hyn yr un mor wir os ydych yn darllen adroddiad / erthygl sydd wedi'i gyflwyno i chi neu os ydych chi'n cyrchu'r data drosoch eich hun. Os ydych chi'n cyrchu data drosoch eich hun, mae llawer o sefydliadau credadwy sy'n cynhyrchu ac yn cyhoeddi data uchel ei ansawdd, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac, wrth gwrs, Data **Cymru**!

### Pa mor glir yw'r diffiniad?

Dylai diffiniadau neu esboniadau ganiatáu i chi ddeall y data rydych chi'n edrych arno. Yn aml cânt eu symleiddio i wneud data yn fwy hygyrch. Fodd bynnag, o'i wneud yn anghywir, gall hyn fod yn gamarweiniol. Er bod camgynrychioli'r ffeithiau fel arfer yn anfwriadol, gall gael effaith fawr ar eich canfyddiad o'r data a beth rydych yn ei wneud ag ef. Felly, os nad ydych chi'n siŵr bod gennych chi'r holl ffeithiau angenrheidiol, holwch.

### Sut mae'r data yn cael ei gyflwyno?

Mae rhifau neu gyfrifiadau'n eich helpu i ddeall swm neu faint rhwybeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fyddant bob amser yn eich helpu i ddeall y darlun ehangach.

Mae canrannau a chyfraddau yn gwneud data yn fwy ystyrlon a hygyrch. Ond, wrth ddefnyddio canrannau a chyfraddau, mae'n bwysig deall y rhifau isorweddol. Mae hyn yn arbennig o wir os ydych chi'n defnyddio'r data i wneud cymariaethau.

## Beth yw cwmpas y data?

Mae tair agwedd i gwmpas wrth weithio gyda data: cwmpas amserol, cwmpas gofodol (daearyddiaeth) a chwmpas cysyniadol (pwnc). Mae cwmpas, yn y cyd-destun yma, yn cyfeirio at beth sy'n cael ei gynnwys a'i hepgor yn eich data.

- **Cwmpas amserol**

Mae cwmpas amserol yn cyfeirio at y cyfnodau mae'r data yn cyfeirio atynt. Mae tair agwedd i'w hystyried, sef:

Pa **gyfnod** ydy'r data yn cyfeirio ato e.g. diwrnod, mis, chwarter neu flwyddyn?

Pa mor **gyfredol** yw'r data e.e. y mis yma, y mis diwethaf, eleni, y llynedd?

Ai data **cronnol** ydyw neu a yw'n ymwneud â chyfnodau **ar wahân**?

- **Cwmpas gofodol**

Mae cwmpas gofodol yn cyfeirio at yr ardal ddaearyddol mae'r data yn ei chwmpasu. Mae llawer o ddaearyddiaethau / ardaloedd gwahanol yn cael eu defnyddio ledled Cymru, sy'n amrywio o ran eu maint ffisegol a / neu eu poblogaeth.

Mae cael mynediad i ddata ar ddaearyddiaethau llai o faint, fel lefel ward neu gymdogaeth (LSOA), yn caniatáu i chi ddeall yn well eich cymunedau lleol, eu hanghenion a sut mae nhw'n amrywio ar draws ardal y cyngor lleol. Gan hynny, mae bob amser yn werth gofyn am weld y data ar ddaearyddiaethau llai lle bo'n bosibl.

- **Cwmpas cysyniadol**

Wrth ystyried cwmpas cysyniadol, rydych yn asesu a yw'r data yn gynhwysfawr h.y. a yw'n cipio'n llawn y pwnc dan sylw. Mewn geiriau eraill, nad oes hepgoriad amlwg o'r data a / neu bod pob elfen briodol yn cael ei chynrychioli. Os nad ydych yn siŵr, holwch. Does dim angen bod yn arbenigwr yn y pwnc i

dreiddio'n ddyfnach. Y cyfan mae angen i chi ei wneud yw sicrhau bod eich dealltwriaeth o'r data yn glir trwy ofyn cwestiynau syml.

- **Ydy'r graffeg yn glir?**

Mae modd defnyddio graffeg, siartiau a thablau i wneud data yn fwy hygyrch. Maent yn gallu cyfleu data cryno yn gyfym ac yn hwylus heb yr angen am lawer o destun esboniadol neu ddata crai cymhleth.

Fodd bynnag, drwy beidio â'u gwneud yn gywir, mae graffiau, siartiau a thablau yn gallu bod yn gamarweiniol. Felly cofiwch:

**Gwiriwch yr echel bob tro** - os nad yw'r echel yn dechrau ar sero, mae'n bosib i'ch perspectif gael ei wyro.

**Gwiriwch drefn y data** - rydym yn tueddu i gyflwyno data perfformiad mewn trefn o'r 'gorau' i'r 'gwaethaf'. Ond mae'n bosibl na fydd hyn yn wir bob tro. Felly, gwnewch yn siŵr eich bod yn deall sut mae'r data wedi'i drefnu.

**Gochelwch rhag siartiau 3D** - er eu bod efallai'n edrych yn fwy cyffrous ar y dudalen, gallant wyro dealltwriaeth drwy ddelweddau aneglur a methu â rhoi cynrychiolaeth gywir o'r data.

- **A oes unrhyw ffactorau eraill mae angen i chi eu cymryd i ystyriaeth?**

Mae'r mwyafrif o sefydliadau yn cyhoeddi ***metadata*** ochr yn ochr â'u data. "Data am ddata" yw *metadata* a'i nod yw rhoi i chi'r holl wybodaeth angenrheidiol am y data rydych chi'n edrych arno. Gallai hyn gynnwys a yw'r data wedi cael ei dalgrynnu, ydy rhai o'r data wedi cael ei 'guddio' i ddiogelu hunaniaeth unigolyn neu oes unrhyw amodau penodol mewn perthynas ag ailddefnyddio'r data.

## Atodiad B: Cwestiynau i'w hystyried wrth graffu ar berfformiad

Seilir y cwestiynau sy'n dilyn ar yr wybodaeth yn 'Performance management guide for Councillors' yr LGA:

- A yw dyletswyddau cyfreithiol yn cael eu cyflawni'n effeithiol?
- A yw arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth? Beth yw'r goblygiadau ariannol?
- A oes goblygiadau mewn perthynas ag a) diogelu b) cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant c) materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu?
- Yn gyffredinol, ydy hyn yn ddatblygiad positif neu broblemus?
- Sut mae hyn yn cyfrannu at gynllun cyffredinol ac amcanion strategol ein cyngor?
- Sut mae hyn yn edrych ac yn teimlo o safbwynt ein dinasyddion?
- Beth yw'r goblygiadau moesegol?
- Beth yw'r goblygiadau tymor byr?
- Pa etifeddiaeth hirdymor fydd gan hyn?
- Nawr ein bod yn gwybod hyn, beth dylem ei wneud nesaf er mwyn gwneud i newid ddigwydd?

Am ragor o wybodaeth am yr canllaw hwn neu i weld ein cyfres o canllawau ewch i:


**www.data.cymru**

ymholiadau@data.cymru

029 2090 9500


Data Cymru